Y dyn ei hun

(gwyleidd-dra / gwerthfawrogi)

Eisteddai'r organydd wrth yr organ. Droeon yn ystod y bore roedd wedi ceisio chwarae'r darn cerddoriaeth oedd o'i flaen. Mae'n bur debyg ei fod wedi chwarae'r darn o leiaf hanner cant o weithiau a bob tro roedd wedi gwneud camgymeriad. Roedd yn ddarn mor anodd ond eto'n ddarn byrlymus, cynhyrfus. Darn o waith y cerddor Mendelssohn oedd y darn anodd hwn. "Un cynnig eto cyn i mi fynd adref i gael cinio," meddai wrtho'i hun. Digwyddodd edrych yn y drych oedd wrth ochr yr organ. Gwelai rywun yn eistedd yng nghefn yr eglwys. "O diar," meddai, "dydw i ddim eisiau i neb wrando arna i'n gwneud cymaint o gamgymeriadau."

Pan oedd yr organydd yn hel meddyliau fel hyn dechreuodd y dyn yng nghefn yr eglwys gerdded yn araf tuag ato. "Esgusodwch fi," meddai'r dieithryn, "roeddwn yn digwydd cerdded heibio'r eglwys pan glywais sŵn yr organ yn chwarae. Tybed fuasech chi'n gadael i mi chwarae'r darn yna ar yr organ?"

"Na," oedd ateb pendant yr organydd, "mae hon yn organ ddrudfawr iawn a does gan neb hawl i chwarae'r organ ond yr organydd. A fi ydi'r organydd." Roedd ei ateb mor derfynol. Credai fod y dieithryn yn ŵr digywilydd iawn. Penderfynodd y dieithryn eistedd yn y sedd agosaf i'r organ. Roedd yr organydd wedi'i gynhyrfu. Dechreuodd yr organydd chwarae'r darn unwaith eto. Ceisiodd anghofio fod y dieithryn yn eistedd wrth ei ymyl. Roedd yn dal i wneud camgymeriadau – mwy os rhywbeth.

Gofynnodd y dieithryn iddo unwaith eto. "Ga i roi cynnig ar y gerddoriaeth yna? Wna i ddim drwg o gwbl i'r organ. Mae gen i ychydig o brofiad . . . ychydig bach!

Meddyliodd yr organydd, Petawn i'n gadael iddo chwarae ychydig yna mae'n siŵr o fynd wedyn.

"Iawn," meddai'r organydd. "Rhowch gynnig arni am ychydig funudau."

"Diolch," meddai'r dieithryn yn gwrtais. Cyffyrddodd â'r organ. Llanwodd y sŵn yr eglwys drwyddi. Eisteddodd yr organydd wrth ei ochr i wrando ar y gerddoriaeth fwyaf gogoneddus. Rhyfeddai'r organydd. Roedd y dieithryn yn gallu chwarae'r darn anodd. Doedd yna 'run camgymeriad. Ond, yn fwy na hynny hyd

yn oed, roedd y dieithryn yn chwarae'r darn â'i lygaid ar gau. Y fath sŵn gorfoleddus.

Yn sydyn tynnodd y dieithryn ei ddwylo oddi ar yr offeryn. Cododd ar ei draed a diolchodd i'r organydd am y cyfle. "Diolch," meddai mewn llais mwyn.

Roedd yr organydd yn methu siarad. "Diolch ... diolch ... yn fawr iawn i chi. Mae'n amlwg eich bod yn organydd penigamp a hefyd ... yn gerddor heb ei ail. "Ga i ofyn beth yw eich enw?"

"O! fy enw i ydi Felix Mendelssohn," meddai'r dieithryn gan gerdded i fyny'r eglwys tua'r drws. Yr oedd yr organydd yn gegrwth.

Adnod: "Ond yn awr, dewch â thelynor ataf. Ac fel yr oedd y telynor yn canu, daeth llaw yr Arglwydd arno..." 2 Brenhinoedd 3:15

Gweddi: Diolchwn i Ti, O Dduw, am y pleser mae cerddoriaeth yn ei roi i bobl. Diolch i ti am gerddorion a chyfansoddwyr sy'n gallu creu pob math o gerddoriaeth. Amen.

Trafod:

- Fyddech chi'n dweud fod yr organydd yn berson hunanol?
- Sut ddyn oedd Felix Mendelssohn yn ôl y stori hon?